Helpu pobl efo HIV

(penderfyniad / gosod esiampl / meddwl am eraill)

Ar ddechrau'r ganrif hon, yn ôl ffigurau'r Cenhedloedd Unedig, mae oddeutu 25.3 miliwn o bobl i'r de o anialwch Sahara yn dioddef o HIV. Mae o gwmpas 4.2 miliwn o'r rhain yn byw yn Ne Affrica. Mae 13 miliwn o blant Affrica wedi colli eu rhieni trwy HIV. Ac eto, ar y cychwyn, doedd yr Arglwydd Thabo Mbeki, Arlywydd De Affrica, ddim yn credu fod rhaid gweithredu. Yn ei eiriau ef ei hun, "Dydw i ddim yn gweld hon yn broblem o gwbl."

Bob dydd byddai plant yn cael eu gadael yn amddifad. Doedd dim amdani ond iddynt ymuno â gweddill y plant oedd wedi cael eu gadael heb rieni. Ar y strydoedd yr oedd y rhain yn byw. Cysgu ar y stryd, begera ar y stryd, byw o ddydd i ddydd ar y stryd. Dyna oedd bywyd i'r plant.

O dro i dro byddai rhai o bobl y dinasoedd yn crwydro'r strydoedd i gynnig bwyd a diod i'r plant. Weithiau byddai rhai teuluoedd yn mabwysiadu rhai o'r plant hyn. Un o'r rhai ffodus oedd Nkosi. Bachgen ifanc iawn oedd Nkosi pan fu farw ei rieni o HIV. Bu aelodau o'i deulu yn gofalu amdano am rai blynyddoedd ond, yn raddol, dechreuodd grwydro ac ymuno â phlant y stryd. Roedd yn well ganddo fyw drwy fegera a chysgu efo'r plant eraill na mynd yn ôl at ei deulu.

Un gyda'r nos, pan fyddai rhai o bobl Johannesburg yn crwydro'r strydoedd i fwydo'r plant, daeth gwraig o'r enw Gail Johnson ar draws Nkosi yn gorwedd o flaen un o adeiladau'r ddinas. Roedd golwg druenus arno. Roedd ei ddillad yn garpiau a'i gorff yn fudr. Dechreuodd Gail siarad efo'r bachgen. Dywedodd ei stori wrthi.

"Fuaset ti'n hoffi dod i fyw efo mi a'r teulu?" gofynnodd iddo.

"Na," oedd ei ateb ar y cychwyn ond, yn raddol, ar ôl cryn berswadio, cytunodd y bachgen.

Y noson honno cafodd bryd o fwyd a gwely glân. Yn raddol, wrth ddod i adnabod Nkosi, gwelai Gail ei fod yn fachgen galluog. Roedd hi am roi cyfle iddo fynd i'r ysgol leol. Aeth i weld pennaeth yr ysgol.

"Na," meddai'r pennaeth yn bendant, "chaiff o ddim dod ar gyfyl yr ysgol hon os ydi o'n dioddef o HIV. Does gen i ddim hawl

i'w dderbyn, dyna gyfraith y wlad." Roedd geiriau'r pennaeth mor bendant.

O'r munud hwnnw dechreuodd Gail ymgyrchu i newid y gyfraith oedd yn rhwystro plant oedd yn dioddef o'r feirws i fynychu'r ysgol. Ond nid Gail yn unig oedd yn ymgyrchu; roedd Nkosi yntau hefyd ar flaen y gad. Ymhen dim daeth yn ffigwr cenedlaethol. Cynhaliodd ymgyrchoedd ar hyd a lled De Affrica, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, yn rhybuddio ynghylch erchyllterau'r afiechyd, a sut i atal yr afiechyd.

Ym Mehefin 2001, bu farw Nkosi yn 12 oed. Daeth dros fil o bobl i'w angladd yn yr Eglwys Fethodistaidd. Roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn Saesneg, Zulu a Xhosa.

Yn ôl ei fam faeth, Gail, "Dangosodd Nkosi gryn dosturi a chariad tuag at bawb."

Adnod: "Ymadawodd y gwahanglwyf ag ef ar unwaith, a glanhawyd ef." Marc 1:42

Gweddi: Boed i Dduw ein bendithio â digon o ffolineb i gredu y gallwn wneud gwahaniaeth yn y byd hwn. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi trafod pynciau fel HIV yn agored gyda'n ffrindiau?
- Ydych chi'n credu fod cyfraniad Nkosi wedi bod yn un pwysig?